y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVII RHIF 43 DYDD GWENER, HYDREF 23, 2009 Pris 40c

Rhyw fora Mawrth ym mis Mehefin

Petai rhywun yn gofyn beth oedd y profiad mwyaf cofiadwy i mi yn ystod gwyliau'r haf eleni, heb os nac oni bai, fe ddywedwn mai fy ymweliad â Genefa ym mis Mehefin oedd hwnnw, ac yn arbennig yr hyn a ddigwyddodd i mi ar fore dydd Mawrth yr wythnos honno. Fel y gŵyr darllenwyr selog y *Goleuad*, mae eleni yn flwyddyn dathlu pum can mlwyddiant geni John Calfin, ac roedd fy ymweliad â Genefa yn cydfynd â'r dathlu hwnnw. Wedi mynychu oedfa'r dathlu ar fore Sul yn eglwys Sant Pedr a mwynhau taith gerdded o amgylch yr hen ddinas, dyma benderfynu mynd i chwilio am fedd John Calfin.

Prin bod swyddfa dwristiaeth y ddinas wedi agor ei drysau fore Mawrth pan gerddais i mewn a holi am leoliad y fynwent. Gallasech feddwl fy mod wedi holi'r ffordd i'r lleuad gan i'r ferch syllu'n hurt arnaf a chyfaddef na wyddai'r ateb i'r cwestiwn ac nad oedd neb o'r blaen, hyd y gwyddai, wedi holi am fedd y gŵr enwog hwn. Diflannodd i un o stafelloedd cefn y swyddfa a dychwelyd ymhen ysbaid a gwên fawr ar ei hwyneb, yn amlwg yn falch ei bod yn gallu fy nghynorthwyo. Agorodd blygiadau map a dangos lleoliad y fynwent i mi gan egluro ei bod rhyw waith tri chwarter awr o gerdded o'r swyddfa. Dilyn yr afon wedyn a chroesi un o'r pontydd niferus, troi i'r dde ac yna i'r chwith ac fe ddylwn fod wedi cyrraedd pen y daith

Cyn dim roeddwn yn sefyll y tu allan i borth y *Cimetière de Plainpalais*, yn falch o fod wedi canfod y fynwent yn weddol ddidrafferth. Roedd hi'n fore hyfryd a'r haul yn danbaid, a'r beddau niferus fel tudalennau cyfrol drwchus o hanes yn ymagor o flaen fy llygaid ac yn fy ngwahodd i'w darllen fesul un ac un. Hon, yn amlwg, oedd un o brif fynwentydd Genefa a gorffwysfan nifer o'i henwogion ar hyd y canrifoedd. Ond beth am John Calfin? Wyddwn i ddim ble i gychwyn chwilio am ei fedd. Tra'n cerdded rhwng y beddau, daeth merch ifanc i'm cyfarfod a dyma fentro'i holi, ond yn amlwg doedd hi erioed wedi clywed am John Calfin, a pharodd hynny rhyw anniddigrwydd ynof. Cofio am O.M. Edwards yn ei gyfrol enwog 'Cartrefi Cymru' ar ei ffordd i Gefn Brith, ac yn holi heddgeidwad am y ffordd. Ond Sais ydoedd heb unrhyw grebwyll am hanes Cymru, a Chefn Brith a John Penri yn enwau hollol ddieithr iddo. Efallai nad yw'r gymhariaeth yn un hollol deg, ond yn sicr doedd enw John Calfin hyd yn oed yn fy acen Ffrengeg garbwl i yn golygu dim i'r ferch ifanc a gyfarfum yn y fynwent y bore hwnnw. Cerdded ymlaen wedyn ar hyd y llwybr a sylwi ar ŵr yn torri coed yn y pellter, a dyma fentro eto. A llwyddo! Doedd ganddo nemor ddim Saesneg na finna chwaith fawr o Ffrangeg, ond deallodd fy mwriad, a dangosodd y bedd i mi. O'r holl feddau yn y fynwent, hwn oedd y mwyaf di-sylw ohonynt i gyd. Carreg fach a'r llythrennau 'JC' wedi eu cerfio arni a gofnodai fan ei gladdu, a ffrâm haearn o'i amgylch. A dyna'r cyfan. Dyna mae'n debyg oedd dymuniad John Calfin ei hun. Ond efallai nad yw hynny 'chwaith yn hollol wir; oherwydd ei wir ddymuniad oedd cael ei gladdu mewn bedd di-enw, a



Bedd John Calfin

hynny oherwydd nad oedd am dderbyn unrhyw glod iddo'i hun, ddim hyd yn oed wedi'i farwolaeth. Does na'r un gofeb na cherflun iddo yn Genefa nac yn unman arall o ran hynny, ar wahan i honno sydd ar Fur y Diwygwyr, ac yntau yn un o bedwar yn y fan honno. Efallai nad oes sicrwydd 'chwaith mai yn y bedd bach di-nôd hwn yn Genefa y claddwyd prif ffigwr y Diwygiad Protestannaidd yn Ewrop. Ond i mi, ni wna hynny ond grymuso'i neges, a geiriau'r Pêr Ganiedydd ddaw i'r cof:

Ymgrymed pawb i lawr
i enw'r addfwyn Oen,
yr enw mwyaf mawr
erioed a glywyd sôn:
y clod, y mawl, y parch a'r bri
fo byth i enw'n Harglwydd ni

(CFf. 312)

Bûm yn eistedd ar fainc gyfagos am beth amser, a thawelwch y fynwent yn dreiddgar. Y gŵr mawr hwn a roddodd i ddinas Genefa ei chalon yn dewis dinodrwydd. Onid yw hynny'n taro'n chwithig mewn oes pan fo cymaint o fri ar enwogrwydd, a rhaglenni megis 'The X Factor' a 'Strictly Come Dancing' yn ennyn dilyniant anhygoel?

Gall ambell i brofiad dreiddio'r enaid ac aros yn em o drysor ym mlygion y cof. Daeth bore dydd Mawrth, 2 Mehefin 2009 a phrofiad felly i mi. Fydda Calfin wedi dymuno i mi dreulio bore yn chwilio am ei fedd? Go brin; a rhaid cyfaddef i mi deimlo peth euogrwydd yn sefyll yno'n tynnu llun y bedd syml. Ond dyna wnes i, yn gam neu'n gymwys. Un peth sy'n sicr, roedd neges y garreg fach honno yn llawer grymusach na'r hyn a gyfleid gan feini coffa rhwysgfawr y 'cewri' a rannai'r un orffwysfan â John Calfin.

Y Barchg Gwenda Richards,
Caernarfon.